**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y Gweithgor Diogelwch y Ffyrdd a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2025**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Elgin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jackie Burnham (Maer)
Y Cynghorydd Gloria Lambert
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Val Simmons
Steve Wilson – Clerc y Dref
Roedd 10 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Sophie Baker
Y Cynghorydd Ann Davies
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Mike Kermode

**2. Datgan buddiant**
Dim

**3. Dyfeisiau Dangos Cyflymder (SIDs) yn Rhuddlan**
Rhannodd y Cynghorydd Mike Elgin wybodaeth am leoliadau y dyfeisiau presennol a'r problemau yn ymwneud â fandaliaeth. Trafodwyd y materion canlynol:

- Roedd cytundeb cyffredinol bod y dyfeisiau yn cael effaith gadarnhaol ar leihau cyflymder.
- Mae angen cynnal pob un o'r dyfeisiau. Cytunwyd.
- Dylid addasu'r dyfeisiau er mwyn helpu i atal fandaliaeth yn y dyfodol.
- A ellid prynu dyfais symudol a'i defnyddio mewn lleoliadau gwahanol o amgylch y dref.
- Mae rhai gyrwyr yn anwybyddu'r dyfeisiau yn ogystal â'r arwyddion cyflymder.
- Y posibilrwydd y gallai'r cyngor brynu dyfeisiau newydd ar gyfer Ffordd yr Ucheldir a Ffordd y Rhyl.
- A ellid gosod arwyddion 20mya ar Ffordd yr Ucheldir gan fod yr ardal hon yn benodol yn peri pryder i breswylwyr. Cytunodd y cyngor i ofyn i CSDd a fyddai'n gosod yr arwyddion neu a fyddai'n bosibl i Gyngor Tref Rhuddlan eu prynu a'u gosod ei hun.
- Gofynnwyd i'r Clerc gael data o bob un o'r dyfeisiau dangos cyflymder yn Rhuddlan fel bod y grŵp hwn yn gallu edrych ar y data a'u trafod.

**4. Mae 20 yn ddigon**
Aeth y Cynghorydd Mike Elgin drwy'r data a gasglwyd 2 flynedd ers cyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya. Cadarnhaodd mai CSDd sy'n gosod y terfynau cyflymder a'r Heddlu yn unig all eu gorfodi. Trafodwyd y mater a chytunwyd yn gyffredinol bod y terfyn 20mya yn lleihau damweiniau, fodd bynnag, roedd diffyg gorfodaeth ar ffyrdd, ac eithrio'r cefnffyrdd.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod y diffyg ardal glustogi 40mya ar Ffordd Alltmelyd wrth ddod i mewn i dref Rhuddlan yn broblem fawr ac nad oedd CSDd yn gallu fforddio rhoi hyn ar waith.

**5. Gorfodaeth yr heddlu yn Rhuddlan**

Trafodwyd hyn a nodwyd bod Ffordd y Rhyl a Ffordd Alltmelyd yn gefnffyrdd lle gwelir bod yr heddlu Siwrne Saff yn gorfodi'r rheolau.
Dywedodd rhai aelodau o'r cyhoedd ei bod yn anodd iawn rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw ddigwyddiadau, a'r teimlad oedd nad oedd gan yr heddlu yr adnoddau i orfodi terfynau cyflymder.
Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y Clerc yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i reportio digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**
Dywedodd y Clerc ei bod yn bwysig cofnodi pob digwyddiad gan y byddai hyn yn amlygu'r materion a byddai'r heddlu yn fwy tebygol o wneud rhywbeth yn eu cylch.
Cyfeiriwyd at y cyfarfod safle a gynhelir cyn bo hir gyda'r AS Gareth Davies.
Dywedodd mai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwynodd y terfyn cyflymder 20mya heb unrhyw strategaeth orfodaeth amlwg.

**6. Grŵp Cyflymder Cymunedol**

Trafodwyd hyn a dywedodd rhai aelodau o'r cyhoedd y byddent yn hoffi bod yn rhan o'r grŵp.
Nodwyd y gall Gan Bwyll gymryd amser hir i ymateb a chytunodd y Clerc i fynd ar ôl hyn.
Cytunodd y Cynghorydd Arwel Roberts i roi pwysau ar Siwrne Saff i wneud mwy o waith gorfodaeth yn Rhuddlan.

**7. Ardaloedd Problemus**

Roedd yr ardaloedd problemus eisoes wedi'u trafod. Nodwyd y syniadau i leihau cyflymder, sef rhagor o arwyddion, marciau ar y ffyrdd, gwneud y ffyrdd yn fwy cul, twmpathau cyflymder, a dyfeisiau dangos cyflymder.
Cyngiodd y Cynghorydd Mike Elgin fod y grŵp yn gofyn i Gyngor Tref Rhuddlan brynu a gosod dyfais dangos cyflymder ar Ffordd yr Ucheldir ac un arall ar Ffordd y Rhyl drwy'r dref. Eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**
Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r damweiniau mynych ger cylchfan y Cwrs Golff ac y gallai damwain ddifrifol ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r Cynghorydd Ann Davies yn cyfarfod swyddogion CSDd i drafod y cylchfan a gofynnodd aelod o'r cyhoedd a fyddai'n bosibl i'r Cynghorydd Ann roi adborth i'r cyfarfod.

**8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** – i'w gadarnhau